


# *fflecsi* – profiad o Drafnidiaeth Seiliedig ar Alw yng Nghymru

## Adroddiad wedi'i ddiweddaru – canfyddiadau ymchwil gan deithwyr yng Nghasnewydd

Awst 2022

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

transportfocus
ffocws ar drafnidiaeth

# Cefndir a chyflwyniad

**Gweithiodd Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru gyda Trafnidiaeth Cymru i asesu'r profiad o Drafnidiaeth Seiliedig ar Alw ar ôl cyflwyno sawl cynllun peilot dan y brand *fflecsi* yng Nghymru yn 2020[1]. Hefyd, edrychwyd ar ddau gynllun yn Lloegr fel cymhariaeth – Tees Flex mewn rhannau o Tees Valley a go2 yn ardal Sevenoaks.**

Roedd ein hasesiad yn cynnwys cyfweliadau â theithwyr a darpar deithwyr yn ogystal â sgyrsiau gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol (rhai yn cymryd rhan yng nghynllun peilot *fflecsi*, eraill ddim). Cynhaliwyd yr ymchwil mewn dwy ran. Roedd y rhan gyntaf yn cwmpasu'r cynlluniau *fflecsi* yn ardaloedd Dinbych, Sir Benfro (heb gynnwys Bwcabus sydd wedi ymuno â theulu *fflecsi* ers hynny) a Dyffryn Conwy. Mae'r ail ran wedi edrych ar Gasnewydd lle lansiwyd gwasanaeth *fflecsi* estynedig yn hydref 2021. Cynhaliwyd rhan Casnewydd ddechrau 2022 i roi amser i'r gwasanaeth setlo ac i deithwyr ddod i arfer â'r profiad o wasanaeth bws hyblyg. Mae'n wrthgyferbyniad defnyddiol rhwng gwasanaeth dinesig a'r rhai mwy gwledig a gwmpaswyd yn y gorffennol.

Mae'r diweddariad hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yng Nghasnewydd ac unrhyw wahaniaethau a welwyd rhwng y ddinas a'r ardaloedd gwledig a gwmpesir yn ein hadroddiad interim. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r adroddiad interim, sydd ar gael ar ein gwefan[2]. Mae'r adroddiad interim hefyd yn cynnwys canfyddiadau'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol.

1 Gellir dod o hyd i fwy o fanylion am *fflecsi* ar wefan y cynllun, https://www.*fflecsi*.wales/; sylwer y cyfeirir at rai cynlluniau fel Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw – ac sy'n ceisio integreiddio gwasanaethau bysiau hyblyg â gwasanaethau bysiau, trên a choets presennol.
2 Gweler: https://www.transportfocus.org.uk/publication/fflecsi-the-experience-of-demand-responsive-transport-in-wales/

# Rhageiriau

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw a Thrafnidiaeth Ymatebol Integredig fel rhan o'r cymysgedd trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n edrych ar sut gall Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw a Thrafnidiaeth Ymatebol Integredig ddarparu gwasanaethau mewn cymunedau gwledig yn ogystal ag agor cyfleoedd a chysylltiadau newydd â gwasanaethau bysiau a rheilffordd presennol ledled y wlad.

Gan weithio gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau a'r cyflenwr platfform technoleg, mae'r dull hwn o ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus wedi golygu bod pawb fu'n ymwneud â'r prosiect wedi gorfod dysgu llawer yn gyflym iawn. Roedd cynnal y gwasanaethau yn ystod pandemig yn her, ond wrth i ni gynyddu ein dealltwriaeth o alluoedd y dechnoleg, gwrando ar adborth teithwyr a dechrau cyfathrebu manteision y math newydd hwn o wasanaeth i ddarpar gwsmeriaid, dechreuom weld cynnydd yn nifer y bobl wnaeth fanteisio ar draws yr holl wasanaethau peilot.

Roedd gwasanaethau *Fflecsi* yn achubiaeth i lawer o deithwyr oedd angen gwneud siwrneiau hanfodol yn ystod y pandemig. Roedd y gwasanaethau'n dal i fod yn boblogaidd wrth i ni ddechrau symud o'r pandemig, gyda'r defnydd yn dal i dyfu yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r cynlluniau peilot yn parhau ac yn dal i esblygu, a chroesawn y canfyddiadau o'r gwaith mwy diweddar yng Nghasnewydd i gyd-fynd a'n hasesiad o gynllun *fflecsi*.

Rydym wedi ein calonogi gan arsylwadau'r adroddiad hwn. Mae'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda er gwaethaf amgylchiadau anodd y pandemig, yr hyn na weithiodd cystal, a lle allwn ni wneud gwelliannau yn y dyfodol.

**Lee Robinson**
Cyfarwyddwr Datblygu'r Canolbarth, y Gogledd a'r Gymru Wledig

transportfocus
ffocws ar drafnidiaeth

Mae Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru yn canolbwyntio ar gynrychioli buddiannau defnyddwyr trafnidiaeth yng Nghymru. Rydym yn falch o weithio gyda Trafnidiaeth Cymru wrth iddo lansio nifer o gynlluniau peilot dan y brand *fflecsi*. Mae ein hymchwil yn asesu profiad teithwyr o Drafnidiaeth Seiliedig ar Alw ac yn tanlinellu gwersi pwysig nid yn unig i TrC ond hefyd i weithredwyr ac awdurdodau eraill sy'n ystyried Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw fel rhan o'r cymysgedd trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y dyfodol.

Yn genedlaethol, mae Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw wedi bod yn rhan o'r cymysgedd trafnidiaeth ers blynyddoedd, yn bennaf ar ffurf gwasanaethau 'Dial-a-Ride' sydd wedi'u hanelu'n bennaf at aelodau oedrannus ac anabl o'r gymuned. Yn fwy diweddar, mae technoleg wedi galluogi datblygiad gwasanaethau hyblyg, gydag archebu ar-lein yn haws diolch i apiau ac algorithmau cyfrifiadurol sy'n cyfrifo llwybrau ac amserlenni gyrwyr.

Yr her sy'n wynebu trafnidiaeth gyhoeddus yw mynd i'r afael â rhwystrau allweddol costau, cyfleustra a chymhlethdod, er mwyn ehangu apêl gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, annog pobl i newid ymddygiad a chynnig opsiynau trafnidiaeth da i gymunedau, mewn cymunedau dinesig a gwledig. Mae canfyddiadau'r ymchwil mwy diweddar yng Nghasnewydd yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar sut gall gwasanaethau *fflecsi* chwarae rhan wrth wireddu'r her hon.

**Y Cynghorydd William Powell**
Aelod o'r Bwrdd dros Gymru

# Canfyddiadau allweddol o Gasnewydd – defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr

## Agweddau tuag at drafnidiaeth gyhoeddus

Fel yr ardaloedd a gwmpaswyd yn flaenorol, roedd y bobl wnaethon ni siarad â nhw i gyd yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu'n agored i'r syniad o ddefnyddio gwasanaeth bws hyblyg o bosib. Unwaith eto, i'r rheini â mynediad i gar, dyna'r dull amlwg a'r dull sy'n cael ei ffafrio wrth wneud taith oni bai bod gyrru a pharcio yn broblem.

"Dwi'n defnyddio'r car ar gyfer y rhan fwyaf o bethau oherwydd mae'r car yno a dwi'n gallu neidio i mewn iddo a mynd i bobman o amgylch y ddinas."

Menyw, 59, darpar ddefnyddiwr, Casnewydd

Mae tacsis yn cael eu hystyried yn ddrud oni bai eich bod yn teithio fel grŵp ar gyfer rhywbeth fel noson allan, ond gall capasiti fod yn broblem gyda'r angen am ddau gerbyd weithiau.

"Y broblem gyda thacsis yng Nghasnewydd yw bod y pris wedi mynd yn afresymol, wedi dyblu mewn pedair neu bum mlynedd. Byddai tacsi o adre i fynd allan yn costio tua £8."

Dyn, defnyddiwr, 47, Casnewydd

"Mae'n edrych fel tacsi, ond yn fwy ac yn haws os ydych mewn grŵp o fwy na phedwar, pan mae'n anodd cael tacsi ac mae'n rhaid cael dau. Felly byddai hyn yn rhatach a byddai lle i bawb."

Pâr o ddynion, darpar ddefnyddwyr, 16 ac 17, Casnewydd

Bysiau yw'r ffordd arall fwyaf amlwg ar gyfer siwrneiau lleol, ond nid oes gan rai ardaloedd o'r ddinas wasanaeth bws ag amserlen. Arweiniodd hyn at ymdeimlad o anghyfiawnder yn yr ardaloedd hynny o Gasnewydd sydd heb wasanaeth bws ag amserlen pan gafodd ardal y cynllun peilot ei ymestyn i gynnwys ardaloedd a oedd eisoes â gwasanaeth rheolaidd. Mae rhai teithwyr yn ardal y cynllun peilot gwreiddiol yn awgrymu bod eu hanghenion yn fwy ac y dylid eu blaenoriaethu pan fydd galw mawr am fysiau *fflecsi*

"Gallwch chi ddim dod o hyd i un hanner yr amser, ddim ers iddyn nhw ehangu'r ardal sy'n cael ei gwmpasu."

Dyn, defnyddiwr, 70, Casnewydd

Roedd Covid yn golygu nad oedd gwasanaeth bws ag amserlen yn rhedeg ar ôl 6pm nac ar y Sul yng Nghasnewydd. Fel llefydd eraill, arweiniodd hynny at orfod defnyddio tacsis, er gwaetha'r gost, lle nad oedd cael lifft yn opsiwn. Ystyriwyd bod diffyg gwasanaethau ag amserlen gyda'r hwyr ac ar y Sul yn embaras gan rai, ac yn rhywbeth roedd *fflecsi* wedi mynd i'r afael ag ef.

"Gyda'r nos, mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio, felly mae'n well na dim. Ni yw'r drydedd ddinas fwyaf yng Nghymru a does dim bysiau gyda'r nos!"

Dyn, defnyddiwr, 56, Casnewydd

Cafwyd mwy o feirniadaeth o'r gwasanaethau bws ag amserlen yng Nghasnewydd nag yn unman arall. Dylid cofio yn y lleoliadau gwledig yng Nghymru, disodlodd *fflecsi* y gwasanaeth ag amserlen. Yn aml, gwelwyd bod y gwasanaethau rheolaidd yn annibynadwy a ddim yn cyrraedd yn brydlon. Mae'r ffaith bod ap *fflecsi* yn caniatáu

defnyddwyr i gadw golwg ar leoliad eu bws yn cyfrannu at yr ymdeimlad bod *fflecsi* yn fwy dibynadwy. Ystyriwyd bod y bysiau a ddefnyddiwyd ar gyfer *fflecsi* yn fwy modern, mwy deniadol ac yn lanach, a'r gyrwyr yn fwy cyfeillgar ac yn fwy parod i helpu.

"Mae 'na fysiau rheolaidd ond mae'r amseru yn anwadal ar brydiau. Mae'n well archebu fflecsi, o leia ry'ch chi'n gwybod pa bryd mae'n mynd i stopio a'ch bod yn gallu cadw golwg arno, yn hytrach na dyfalu os yw'r 8C ar ei ffordd."

Dyn, defnyddiwr, 22, Casnewydd

Mantais sylweddol *fflecsi* i deithwyr Casnewydd yw'r ffaith y gall osgoi gorfod cymryd dau fws i gyrraedd eich lleoliad a gall osgoi'r angen i deithio i ganol y ddinas. Mae'n cael gwared ar yr angen i aros am yr ail fws, a'r ansicrwydd os yw'n mynd i gyrraedd yn brydlon.

"Mae'n cymryd llai o amser na dal dau fws, sy'n gallu cymryd awr."

Pâr o ddynion, darpar ddefnyddwyr, 16 ac 17, Casnewydd

Mae'r profiadau cyffredinol a'r agweddau tuag at *fflecsi* yn syndod o gyson ar draws yr ardaloedd o Gymru (Dinbych, Sir Benfro, Dyffryn Conwy, Casnewydd) er bod natur ddinesig Casnewydd yn arwain at ambell ystyriaeth ychwanegol, fel y nodwyd uchod. Mae canfyddiadau'r ddau wasanaeth yn Lloegr (Tees Valley a Sevenoaks) yn adlewyrchu'r rheini o Gymru gyda rhai o'r ystyriaethau mwy dinesig hefyd yn berthnasol.

## Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Roedd mwy o ymwybyddiaeth o wasanaeth *fflecsi* yng Nghasnewydd, gan fod llacio cyfyngiadau Covid wedi'i gwneud yn bosib hysbysebu'r gwasanaeth unwaith y codwyd cyngor y Llywodraeth i wneud siwrneiau hanfodol yn unig. Fel ardaloedd eraill, roedd nifer o ddarpar ddefnyddwyr yn ymwybodol o'r gwasanaeth bws hyblyg yng Nghasnewydd ar ôl gweld y bysiau yn gyrru o amgylch y ddinas. Cyfrannodd fwy o gerbydau yng Nghasnewydd, a mwy o bobl eisiau teithio, at lefelau uwch o ymwybyddiaeth. Wedi dweud hynny, doedd nifer ddim yn gwybod llawer am y gwasanaeth na sut mae'n gweithredu.

"Ie, ro'dd angen i fi wybod amdano, ie, ro'n i wedi'u gweld nhw ond dyw hynny ddim yn ddigon i wneud i fi droi at Google."

Pâr o fenywod, darpar ddefnyddwyr, 51, Casnewydd

Roedd lefel o ddryswch gyda'r brandio Cymraeg yng Nghasnewydd na soniwyd amdano unrhyw le arall.

"Fe weles i'r bysiau bach o gwmpas y lle. Ro'n i'n meddwl ei fod yn rhywbeth newydd. Mae'r arwyddion yn llachar ar flaen y bysiau ac mae'n Gymraeg. Does dim cymaint â hynny o siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd, byddai pobl ddim yn ei ddeall – maen nhw'n mynd ychydig yn rhwystredig gyda phethau dwyieithog."

Menyw, darpar ddefnyddiwr, 59, Casnewydd

"Byddwn i'n gwglo 'flexi bus'. Mae'n iawn cyn belled â bod y ddau sillafiad yn dod i fyny, gan na fyddwn i'n gwybod sut i'w sillafu yn Gymraeg. Does dim llawer yn siarad Cymraeg 'ma."

Menyw, darpar ddefnyddiwr, 60+, Casnewydd

Ar draws pob ardal, mae'r 'hyblygrwydd' yn apelgar, ond mae pobl yn aml yn ansicr beth mae hynny'n ei olygu. Weithiau, gallan nhw ddim credu y gall fod mor hyblyg â hynny, ac yn poeni bod y syniad yn swnio'n rhy dda i fod yn wir – 'gwasanaeth tacsi am bris bws'.

"Fe wnes i gant a thri o siwrneiau yn 2021 – dwi eisiau iddo weithio."

Dyn, defnyddiwr, 57, Casnewydd

"Ro'n i wir eisiau ymddiried yn y gwasanaeth, dwi wir eisiau iddo weithio, oherwydd os yw e'n gweithio, bydd e'n wych, a bydd yn well na'r gwasanaeth anghyson a oedd gyda ni cyn y pandemig."

Menyw, defnyddiwr, 60+, Casnewydd

Ar gyfer siwrneiau penodol, gall defnyddio *fflecsi* fod yn symlach na cheisio gwneud y daith ar sawl bws arferol. Mae gallu *fflecsi* i gysylltu â llwybrau eraill y bysiau neu gyda'r trenau yn cael ei werthfawrogi, ond dim ond cyfran fach o'r holl siwrneiau yw hynny.

"Fe allen i ei ddefnyddio i fwydo i mewn i drên neu fws arall. Byddai'n ddefnyddiol pe bai fflecsi yn cael ei ganiatáu yng ngorsaf fysiau Friars Walk. Dwi'n hoffi lle mae e ar hyn o bryd, achos dyna'r safle bws cyntaf, a does dim angen help arna i ddod o hyd iddo."

Menyw, defnyddiwr, 60+, Casnewydd

Mae cyflwyno *fflecsi* yng Nghasnewydd yn apelio i rai teithwyr sy'n gyndyn o ddefnyddio gwasanaethau ag amserlen. Yn wir, cymaint yw eu ffafriaeth am *fflecsi*, fel bod rhai o ddefnyddwyr Casnewydd eisiau gweld y gwasanaeth ar gael am dripiau i'r arfordir, neu Gaerdydd hyd yn oed, neu ar draws yr Hafren i Fryste.

"Yn ystod fy oes i, dydw i ddim eisiau dal Bws Casnewydd. Byddai'n well gen i deithio'n fwy moethus. Os na fyddai'r fflecsi ar gael, bydden i ddim yn mynd, neu fe fydden i'n aros ychydig yn hirach a chael fflecsi hwyrach."

Pâr cymysg, darpar ddefnyddwyr, 27 a 57, Casnewydd

"Gyda Bws Casnewydd, dydw i ddim yn mynd arnyn nhw, oherwydd er bod amserlen, anaml iawn maen nhw'n cadw at yr amserlen. Byddai hynny'n iawn pe bydden nhw'n gynnar, ond mae'n dueddol o fod i'r gwrthwyneb."

Dyn, defnyddiwr, 47, Casnewydd

"Dwi'n gallu dychmygu ei ddefnyddio ym Mryste neu Gaerdydd. Dwi'n credu ei fod yn syniad da. Mae parcio yng Nghaerdydd yn afresymol o ddrud."

Menyw, darpar ddefnyddiwr, 60+, Casnewydd

## Defnyddio'r ap i archebu taith

Cymysg yw'r ymateb o ran archebu teithiau drwy **ap**. Dyw'r rhai sy'n hen gyfarwydd â defnyddio ffonau clyfar ddim yn poeni fawr ddim, ac yn ei ystyried yn fodern a chyfleus. Mae defnyddwyr yn croesawu, a hyd yn oed yn disgwyl, elfennau ymarferol yr ap o ran y map rhyngweithiol, cadarnhau archebion, rhybuddion wrth i'r bws agosáu, ac ati. Mae'n ymddangos bod defnyddwyr yng Nghasnewydd yn poeni llai am ddefnyddio'r ap, sydd o bosib yn adlewyrchu demograffeg gwahanol i'r un yn yr ardaloedd gwledig.

"Byddai'n dda pe bai gen i'r holl amser yn y byd ond mae amser yn brin, mae'n fwy ar gyfer hamdden – picio i'r dre. Fy argraff i yw ei fod yn fwy ar gyfer pobl sy'n mynd am goffi neu i'r sinema."

Menyw, darpar ddefnyddiwr, 33, Casnewydd

"Fe wnes i lawrlwytho'r ap. Ond ro'n i'n meddwl ei fod yn edrych yn rhy dda i fod yn wir a wnes i ddim trafferthu edrych i mewn i'r peth. Pe bawn i'n nabod rhywun a oedd yn ei ddefnyddio ac yn gwybod ei fod yn ddibynadwy, yna mae'n debyg y byddwn i hefyd. Mae'n mynd i lefydd fel y Celtic Manor – mae hynny'n dda a gallwch chi ddim dal bws i'r fan honno."

Pâr o fenywod, darpar ddefnyddwyr, 33 a 44, Casnewydd

Mae'r ffaith bod yr ap yng Nghasnewydd yn cynnwys bysiau ag amserlen os oes un o fewn 30 munud yn gallu achosi dryswch neu bryder. Mae rhai yn bragmatig cyn belled ag y gallan nhw wneud eu taith pan fyddan nhw'n dymuno; mae eraill yn ffafrio gwasanaeth *fflecsi*.

"Dwi wedi cael cynnig gwasanaeth bysiau rheolaidd yn lle fflecsi. Dydy hynny ddim wir yn fy mhoeni oherwydd fy nod yw cyrraedd lle dwi eisiau mynd. Cynigiodd yr X74. Wnes i ddim ei gymryd oherwydd ei fod mewn pedwar munud ar ddeg ac ro'n i'n credu bod amser yn brin ar yr achlysur hwnnw. Ond ro'dd yn beth derbyniol i'w gynnig."

Dyn, defnyddiwr, 47, Casnewydd

"Dwi'n cael y neges 'ma sy'n dweud bod 'llwybr Bws Casnewydd arall sy'n gwbl iawn yn lle hynny' – wel ma' 'na, ond mae gen i daith gerdded hirach, byddai'n rhaid i fi gerdded drwy ardal sy'n codi ofn arna i i fyny'r rhiw, dwi'n ceisio defnyddio fflecsi am reswm, mae'n rhwystredig."

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 37 a 35, Casnewydd

"O ran y mater 30 munud – bydd hynny'n fy ngollwng yng Nghasnewydd, ac yna mae gen i bymtheg munud ar droed o'r fan lle mae'n fy ngollwng i, menyw, yn y tywyllwch, yn cerdded ar ei phen ei hun. Dylai dynnu sylw at lwybr y gwasanaeth ond hefyd i roi'r opsiwn i chi ddefnyddio fflecsi. Dwi'n ymwybodol o'r 35 a'r 36, dwi wedi gweithio yn Nuffryn ers 13 mlynedd, a dydw i ddim eisiau eu defnyddio, dwi eisiau defnyddio fflecsi. Dyw'r llwybr ddim yn iawn i fi."

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 37 a 35, Casnewydd

Soniodd ambell ddefnyddiwr *fflecsi* rheolaidd yng Nghasnewydd am drafferthion wrth archebu eu gofynion am wythnos o deithio ymlaen llaw.

"Gan fy mod yn gaeth i amseroedd penodol, o ystyried fy mod yn ceisio ei archebu bob dydd am bum diwrnod yr wythnos ar gyfer mynd a dod o'r gwaith, dydw i byth yn cael hynny. A dyna sy'n rhwystredig, na alla i ddibynnu arno 100%. Os ydw i'n dewis yr opsiwn dro ar ôl tro am 5 diwrnod, efallai mai dim ond 3 fyddai'n ei gael."

Pâr o fenywod, defnyddwyr 37 a 35, Casnewydd

"Pan fydda i'n archebu wythnos ymlaen llaw, galla i gael yr hyn dwi ei eisiau fel arfer ond yn ystod y pythefnos diwethaf dydw i ddim wedi cael lle ar y bws ar fore dydd Llun – ond ar fy ffordd, dwi'n pasio'r bysiau y byddwn wedi'u dal, felly dydw i ddim yn gwybod beth sy'n digwydd."

Dyn, defnyddiwr, 22, Casnewydd

"Mae fy ffrind yn dweud mai'r broblem yw y gallwch chi nawr archebu hyd at wythnos ymlaen llaw. Beth yw pwynt hynny? Mae'n golygu eu bod nhw'n llawn yn barod pan fyddwch chi eisiau teithio"

Dyn, defnyddiwr, 70, Casnewydd

Un broblem gyda'r ap yng Nghasnewydd oedd y ffordd yr adroddwyd bod amseroedd cyrraedd yn aml yn newid 'ar y funud olaf'. Er bod defnyddwyr wedi cael gwybod, roedd y newid weithiau'n golygu prinder amser i gyrraedd y bws. Pe bai'r amser gadael yn cael ei aildrefnu i amser diweddarach byddai'n golygu y gallent fod yn hwyr yn cyrraedd.

Mae hyn wedi cyfrannu at y broblem **'o beidio â throi i fyny'** yng Nghasnewydd nad yw'n fawr o broblem yn yr ardaloedd eraill. Mae 'peidio â throi i fyny' yn codi gwrychyn teithwyr sydd eisoes ar y bws gan y bydd yn aros pum munud fel arfer, felly mae'r rheini 'sydd ddim yn troi i fyny' yn cael eu hystyried fel rhai sy'n gwneud teithwyr yn hwyr. Mae defnyddwyr eraill yn cyfaddef 'peidio â throi i fyny' eu hunain ar adegau; doedd yr amser diwygiedig ddim yn gweithio iddyn nhw, ac maen nhw wedi bod yn rhy brysur yn gwneud trefniadau teithio amgen (fel ffonio tacsi neu drefnu lifft) i deimlo bod ganddyn nhw'r amser i ganslo eu harcheb.

"Bob hyn a hyn, ry'ch chi'n eistedd ar y bws a bydd yn stopio am bum munud a neb yn troi i fyny."

Dyn, defnyddiwr, 22, Casnewydd

"Os ydyn nhw'n dod yn gynt na'r arfer, yna mae angen iddyn nhw aros. I bobl sy'n dibynnu arno am amseroedd penodol. Alla i ddim gadael fy nesg yn gynnar, yn enwedig fel rheolwr. Dwi wedi cael fy nghyfundebu tan 17.00."

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 37 a 35, Casnewydd

Cafwyd galwadau ar i'r rheini sydd byth yn troi i fyny gael eu gwahardd o'r gwasanaeth - er bod y rhai a oedd yn teimlo bod ganddyn nhw reswm cyfiawn dros fod 'beidio â throi i fyny' ddim mor awyddus (fel pan fydd amser y bws yn gynt a gallan nhw ddim gadael y gwaith cyn yr amser a drefnwyd).

"Yn bersonol, dwi'n hoff iawn o'r syniad o waharddiadau, ond os byddwch chi'n dechrau defnyddio cosb fe allai ddylanwadu ar y brand, gan ddod â rhywfaint o negyddiaeth iddo. Byddai'n rhaid i chi wneud rhywfaint o ymchwil i weld pwy sy'n mynd i wrthwynebu"

Dyn, defnyddiwr, 47, Casnewydd

Roedd yna awydd beth bynnag i allu talu am *fflecsi* drwy'r ap adeg archebu, a theimlai rhai y byddai hynny'n osgoi 'pobl sy'n peidio â throi i fyny' pe bai'r arian yn cael ei golli.

"Dwi'n credu bod yr ap yn dda – yr unig beth hoffwn i yw gallu talu ymlaen llaw, oherwydd byddai'n braf talu ac yna peidio â phoeni amdano eto."

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 18 a 20, Casnewydd

Mae'n well gan ddefnyddwyr eraill archebu drwy'r **wefan** neu'r **ganolfan alwadau** o hyd. Mae'r ganolfan alwadau yn uchel ei pharch ac yn cael ei hystyried yn rhan hanfodol o'r cynnig gan lawer – ar gyfer archebu teithiau a datrys unrhyw broblemau gyda'r gwasanaeth neu'r archeb. Cafwyd awgrym hefyd y dylai'r ganolfan alwadau (neu'r gyrwyr o bosibl os ydynt yn 'llaw-rydd') alw ymlaen llaw i roi gwybod i deithwyr am unrhyw newidiadau os nad oedd y teithiwr yn derbyn diweddariadau drwy'r ap.

"Ffonio fyddai fy newis i – oherwydd fy oedran fwy na thebyg! Byddwn i ddim eisiau gorfod aros ar y ffôn am oriau. Fwy na thebyg, byddwn yn cael fy mherswadio i ddefnyddio'r ap."

Menyw, darpar ddefnyddiwr, 59, Casnewydd

"Mae'r ganolfan alwadau yn dda iawn, maen nhw'n gwrtais ac yn egluro popeth i chi."

Menyw, defnyddiwr, 74, Casnewydd

"Dwi bellach yn defnyddio'r ganolfan alwadau i archebu ac yna'r ap i gadw llygad ar ble mae fy mws ac i gael yr hysbysiadau."

Menyw, defnyddiwr, 60+, Casnewydd

Mae rhai teithwyr yn poeni am **signal ffonau symudol** yn yr ardaloedd mwy gwledig – boed yn real neu'n dybiedig - ond yn llawer llai yng Nghasnewydd. Maen nhw'n poeni na allan nhw wneud yr archeb gychwynnol, eu bod yn methu derbyn diweddariadau na rhybuddion ac yn cael trafferth archebu taith ddychwelyd ar ôl cyrraedd eu cyrchfan.

Gofynnwyd i bobl fynd ar wefan eu gwasanaeth bws hyblyg lleol a rhoi adborth. Dywedodd y rhan fwyaf bod y gwefannau yn ddefnyddiol ac yn rhoi esboniad da o'r gwasanaeth, er bod rhai yn awgrymu'r angen am ganllawiau ar sut i archebu a defnyddio'r gwasanaeth.

"Dwi'n meddwl bod y wefan yn edrych yn wych, ond dwi'n credu ei fod yn rhyfedd na allwch chi archebu drwy URL y wefan. Mae'n debyg bod rhaid i chi lawrlwytho'r ap i weld mwy, a oedd ychydig yn siomedig."

Pâr o fenywod, darpar ddefnyddwyr, 51, Casnewydd

"Roedd y wefan yn glir iawn. Fe wnes i lawrlwytho'r ap i'm helpu i'w ddeall ac mae'n gweithio'n dda iawn. Dwi'n wael gyda thechnoleg ond dim ond pethau da sydd gyda fi i'w ddweud am yr ap"

Pâr o ddynion, darpar ddefnyddwyr, 54 a 55, Casnewydd

## Defnyddio'r gwasanaeth

Mae teithwyr yng Nghasnewydd, fel ardaloedd eraill, yn defnyddio'r gwasanaeth i siopa, cyrraedd apwyntiadau (meddygol neu fusnes), hamdden a busnes. Mae'r oriau gweithredu yng Nghasnewydd yn golygu bod lefelau uwch o gymudo, mwy o ddefnydd ar gyfer siwrneiau i'r ysgol a mwy o ddefnydd at ddibenion cymdeithasu gyda'r nos.

"Dwi'n ei ddefnyddio i fynd i'r eglwys, siopa, mynd i'r rhandir, mynd o gwmpas y lle."

Dyn, defnyddiwr, 57, Casnewydd

"Mae'r rhan fwyaf i'r gwaith ac yn ôl. Dwi'n byw tua thair milltir i ffwrdd a dydw i ddim yn gyrru."

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 37 a 35, Casnewydd

Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn **fodlon â'r gwasanaeth** sy'n cael ei ddarparu, er bod rhai yn dal i hiraethu am wasanaeth ag amserlen. Yn gyffredinol, maen nhw'n gwerthfawrogi'r hyblygrwydd ac agosrwydd y mannau codi teithwyr. Ond gall arwain hefyd at bryderon am ddibynadwyedd a chyrraedd eich cyrchfan ar amser.

"Mae'n ymwneud yn bennaf â'r terfynau amser, a gorfod bod yn rhywle erbyn amser penodol. Efallai bod Fflecsi yn dod i'ch drws, ond bydden ni'n dibynnu ar y 151 i gadw at amserlen – dwi'n gwybod i sicrwydd y bydd yn dod bob pymtheg munud."

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 37 a 35, Casnewydd

"Does dim opsiwn i ddweud bod angen bod yno erbyn amser penodol – mae'n rhoi amseriad bras i chi gan ddweud 'bydd yn eich gollwng rhwng chwarter wedi wyth ac ugain munud i naw' ond i fi, dyna'r gwahaniaeth rhwng bod yn gynnar ac yn hwyr i'r gwaith."

Dyn, defnyddiwr, 22, Casnewydd

"Dwi ddim yn meddwl y byddai gen i ffydd yn y gwasanaeth bws ar hyn o bryd er mwyn cyrraedd rhywle yn brydlon. Mae'r holl beth am fod yn hyblyg yn mynd yn ei erbyn rhywfaint."

Pâr o ddynion, darpar ddefnyddwyr, 21 a 23, Casnewydd

Yn ystod y pandemig, ni chafodd teithwyr broblemau yn gyffredinol o ran cael sedd ar fws ar ôl archebu lle. Serch hynny, wrth i'r traffig gynyddu wedi'r pandemig, mae rhai yn poeni y gall fod yn anoddach cael sedd neu archebu lle pan fydd mwy o ddefnyddwyr ar ôl y pandemig. Wedi dweud hynny, dywedodd defnyddwyr yn yr ardal beilot wreiddiol o fewn Casnewydd ei bod yn anoddach archebu *fflecsi* ers ei ehangu ar draws y ddinas.

"Yn y diwedd, dwi wedi dechrau defnyddio Bws Casnewydd llawer mwy unwaith eto, oherwydd o leiaf ry'ch chi'n gwybod pryd y daw ac y gallwch ddibynnu arno. Mae Fflecsi wedi gwaethygu ers ehangu'r ardal beilot."

Dyn, defnyddiwr, 70, Casnewydd

Yng Nghasnewydd, fel mannau eraill, mae pobl yn hoffi'r bysiau ac yn cael eu hystyried yn lanach ac yn fwy 'cyfeillgar' na bysiau rheolaidd.

"Mae'r bysiau fflecsi yn edrych yn eithaf cyfforddus, gyda seddi lledr a goleuadau cŵl. Dwi'n dychmygu bod cerddoriaeth arnyn nhw. Mae'n edrych yn eithaf cŵl. Bydden ni ddim yn dal bws cyffredin. Maen nhw'n ffiaidd braidd, felly dim ond os oes rhaid."

Pâr o ddynion, darpar ddefnyddwyr, 16 a 17, Casnewydd

"Mae'n teimlo'n wahanol, yn well na bws cyffredin – mae'r radio ymlaen."

Menyw, defnyddiwr, 74, Casnewydd

"Weithiau gyda Bws Casnewydd, gall y bysiau fod wedi'u gorchuddio'n llwyr â sbwriel ac maen nhw'n ffiaidd – mae *fflecsi* wastad yn neis ac yn lân."

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 18 a 20, Casnewydd

Fel ein holl ymchwil blaenorol am fysiau, mae agwedd y **gyrrwr** yn allweddol i sicrhau profiad boddhaol (neu well). Cafwyd sylwadau positif amdanyn nhw, gan gynnwys bod y radio ymlaen.

"Mae'r gyrrwr ges i heddi, roedd y stop ar dop y rhiw, a wnes i ddim sylweddoli, felly fe gerddais i lawr y rhiw. Fy mai i – arhosais ar y gwaelod a gwelodd y gyrrwr fi. Pe bai'n Fws Casnewydd, fydden nhw ddim wedi stopio ond fe wnaeth hwn. Mae'r gyrwyr ychydig yn fwy cyfeillgar."

Dyn, defnyddiwr, 47, Casnewydd

"Y gyrrwr? Ie a na. Y diwrnod o'r blaen pan oeddwn ar y bws – bydd gyrwyr yn tynnu i fewn ac yn neidio allan i gael sigarét. Dwi'n deall bod pobl yn haeddu seibiant cysur ond pan fyddwch chi'n ceisio cyrraedd y gwaith erbyn amser penodol ry'ch chi'n poeni ychydig."

Dyn, defnyddiwr, 22, Casnewydd

A thra bod **teithwyr anabl** yn gweld *fflecsi* yn werthfawr, mae rhai yn cyfeirio at ymddygiad gwael y gyrwyr.

"...Y diwrnod o'r blaen, ro'n i'n dod nôl o'r dref, fe ges i neges destun yn dweud 'mae eich bws ddau funud i ffwrdd' ac yna, fe dynnodd cerbyd i fyny o'm blaen. Dydw i ddim yn gallu gweld yn ddigon da i weld beth yw e, ond ddigwyddodd dim byd. Felly fe safais yno am ychydig funudau ac yna gofynnais i berson oedd yn pasio, a fe wnaethon nhw ddweud mai *fflecsi* oedd 'na, fe gerddais ato ac agorodd y gyrrwr y drws, a fe ddwedais fy enw. Fe wnes i eistedd a gweld neges destun oedd yn dweud 'mae eich bws yma, mae angen iddo adael, felly allwch chi ddod o hyd iddo? Yn wir, does dim angen llawer o synnwyr cyffredin pan fyddwch chi'n gwybod eich bod chi'n chwilio am rywun sydd â nam ar eu golwg a chithau wedi tynnu i fewn wrth ymyl rhywun â chansen wen..."

Menyw, defnyddiwr, 60+, Casnewydd

Mae'r daith *fflecsi* gyntaf yn cael ei hystyried yn aml fel arbrawf gyda phobl yn aros am y cyfle iawn i roi cynnig arni – weithiau taith hamdden nad yw'n hanfodol neu un lle na fyddai ots os oedden nhw'n hwyr.

"Fe wnes i ei ddefnyddio am y tro cyntaf ym mis Tachwedd – fe wnes i sôn amdano wrth bobl yn y gwaith ac fe wnes i roi cynnig arni. Ond fe wnes i hynny mewn cyfnod o amser lle ro'n i'n gwybod nad oedd ots os o'n i'n hwyr. Fe wnes i hynny ar y ffordd adre!"

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 37 a 35, Casnewydd

"Fe wnaeth fy mos ei argymell ym mis Tachwedd oherwydd ei bod hi'n ei ddefnyddio – ro'dd hi'n gwybod fy mod i'n gadael adre am y tro cyntaf ac na fyddwn yn gallu cael y lifft ro'n i wedi bod yn ei gael. Dwi wedi bod yn ei ddefnyddio bob dydd. Yn rhannol o reidrwydd – dwi wastad wedi cael problemau gyda bysiau rheolaidd yn rhedeg yn hwyr ond mae hwn yn dweud wrthych o fewn deg munud pryd fydd yn cyrraedd."

Dyn, defnyddiwr, 22, Casnewydd

Mae agweddau at **amseroedd ac amlder y gwasanaeth** yn amrywio o ardal i ardal, ac yn ôl diben y daith. Yng Nghasnewydd, mae'r ffaith bod *fflecsi* yn rhedeg tan 11pm (gwasanaethau ag amserlen yn gorffen am 6pm) ac ar y Sul (pan nad oes unrhyw wasanaethau rheolaidd) yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

"Mae'n annifyr peidio â chael gwasanaeth bws go iawn, ond o leiaf mae fflecsi yn golygu bod gyda chi opsiwn nawr."

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 18 a 20, Casnewydd

"Pan edrychais ar yr ap a sylwi ei fod yn rhedeg tan 23.00, ges i sioc oherwydd dyw trafnidiaeth gyhoeddus arferol ddim yn rhedeg mor hwyr â hynny yn yr ardal yma."

Pâr o fenywod, defnyddwyr, 37 a 35, Casnewydd

Mewn mannau eraill, byddai rhai yn hoffi (neu hyd yn oed angen) gwasanaeth cynharach er mwyn iddyn nhw gyrraedd y gwaith yn brydlon. Gallai gwasanaethau hwyrach ganiatáu i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl gwaith neu weithgareddau cymdeithasol eraill fin nos a gallai gwasanaethau ar y Sul fod o fudd i siopwyr ac addolwyr.

Teimlwyd bod **cost** teithiau hyblyg yn dderbyniol. Mae'n ffafriol iawn o gymharu â thacsi (yr unig ddewis arall i rai heb gar). Mae'r ffaith y gellir defnyddio tocynnau *fflecsi* Casnewydd hefyd ar wasanaethau ag amserlen yn cael ei werthfawrogi, er mae'n debyg mai ychydig o ddefnyddwyr oedd yn ymwybodol o hynny.




Trafnidiaeth Cymru

## Sbardunau a rhwystrau

Ledled yr ardaloedd dan sylw, rydym wedi sylwi ar set gyson o sbardunau a rhwystrau (fel y nodir isod). Mae rhai mân wahaniaethau sy'n golygu bod yr hyn a allai annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaeth yn amrywio ychydig o grŵp i grŵp.

Mae tagfeydd a pharcio yn fwy o sbardun i weithwyr/myfyrwyr ac ar gyfer hamdden a thwristiaid, tra mai cyfleoedd teithio rhatach sydd fwyaf perthnasol i bobl sydd wedi ymddeol neu sydd â phroblem symudedd wrth reswm. Yng Nghasnewydd, gwelwyd bod *fflecsi*, yn aml, yn gyflymach ac yn fwy dibynadwy na defnyddio gwasanaeth bws ag amserlen, yn enwedig os yw'r daith yn cynnwys dau wasanaeth ag amserlen. O ran rhwystrau, un gwahaniaeth amlwg ar draws y grwpiau yw bod dibynadwyedd yn hollbwysig i weithwyr/myfyrwyr a rhai â phroblemau symudedd.




## Annog rhagor i fanteisio ar wasanaethau bysiau hyblyg

Mae ein hymchwil ymhlith defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau bysiau hyblyg yn awgrymu nifer o gamau i'w cymryd er mwyn annog rhagor i ddefnyddio gwasanaethau bysiau hyblyg.

- Hyrwyddo'r gwasanaethau yn ehangach, gan gynnwys opsiynau teithiau a phwy all eu defnyddio. Rhoi esboniadau gwell am sut mae'r gwasanaethau a'r broses archebu yn gweithio. Yng Nghasnewydd, dylid pwysleisio'r gallu i wneud teithiau sy'n croesi'r ddinas heb orfod cymryd dau fws.
- Cysoni oriau'r gwasanaeth ag anghenion defnyddwyr, yn enwedig ar gyfer teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ac addysg.
- Rhoi sicrwydd ynglŷn â dibynadwyedd teithiau (drwy gyhoeddi ystadegau perfformiad o bosib) a gwybodaeth well am sut i archebu taith sy'n sicrhau bod rhywun yn cyrraedd erbyn amser penodol.
- Adolygu gwefannau i sicrhau eu bod yn ateb cwestiynau darpar ddefnyddwyr. Ystyried canllawiau 'sut i' (fideos efallai) archebu a defnyddio'r gwasanaeth yn ogystal â map rhyngweithiol o'r ardal a wasanaethir.
- Cysylltu â grwpiau cymorth lleol i hyrwyddo'r gwasanaeth, ac o bosib, i hwyluso asesiadau cadair olwyn.
- Dechrau ymgyrch hyrwyddo briodol drwy ganolfannau croeso, atyniadau lleol ac ardaloedd o harddwch naturiol, gan gynnwys taflenni a phosteri gyda manylion am sut i archebu taith.
- Sicrhau bod peiriannau chwilio'r we yn cynnwys canlyniadau ar gyfer '*fflecsi*' os yw'r term yn cael ei ddefnyddio'n Saesneg ('flexi').
- Mynd i'r afael â phryderon am ba mor ddibynadwy yw'r signal ffôn symudol a gweithio gyda sefydliadau meddygol, addysgol, hamdden a manwerthu lleol er mwyn helpu pobl i archebu teithiau dychwelyd.
- Hyrwyddo elfennau gwyrdd trafnidiaeth gyhoeddus i berchnogion ceir, a'r manteision o osgoi trafferthion a chostau parcio.
- Ystyried talebau ar gyfer taith am ddim a chymhellion eraill i annog pobl i roi cynnig arni yn ogystal ag annog adborth ac adolygiadau gan ddefnyddwyr.

## Gweithredwyr ac awdurdodau lleol

Cwblhawyd cyfweliadau gyda gweithredwyr a/neu awdurdodau lleol yn yr un chwe ardal â'r cyfweliadau defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr (Dinbych, Sir Benfro, Dyffryn Conwy, Casnewydd, Tees Valley a Sevenoaks) yn ogystal â dwy ardal a oedd wedi dewis peidio â chymryd rhan yng nghynllun peilot *fflecsi*, sef Gwynedd ac Abertawe.

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau yng Nghasnewydd, yn adlewyrchu canfyddiadau gweithredwyr ac awdurdodau mewn mannau eraill hefyd, yn enwedig y gweithrediadau ychydig mwy dinesig. Gweler ein hadroddiad cychwynnol am ganfyddiadau allweddol y cynulleidfaoedd hyn.

# Casgliadau

Mae'r casgliadau hyn wedi'u diweddaru rhywfaint i gynnwys arsylwadau Casnewydd yn ychwanegol at y tair ardal Gymreig, sy'n wledig yn bennaf (Dinbych, Sir Benfro a Dyffryn Conwy) a'r ddau wasanaeth yn Lloegr (Tees Valley a Sevenoaks) y soniwyd amdanynt yn barod.

- Unwaith y bydd pobl yn deall y cysyniad hyblyg, mae'n cael ei ystyried fel opsiwn atyniadol gan ddefnyddwyr bysiau blaenorol a'r rhai a allai ystyried ei ddefnyddio yn lle'r car.
- Mae hyrwyddo ac addysg yn hollbwysig os yw defnyddwyr bysiau a'r rhai a allai ystyried ei ddefnyddio i werthfawrogi'r cysyniad yn llawn, y system archebu teithiau a'r ffaith ei fod 'ar gyfer pawb' (nid dim ond pobl oedrannus neu anabl).
- Mae Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw yn addas iawn i wasanaethu'r cymunedau gwledig sy'n rhan o gynllun peilot *fflecsi*, lle mae economeg gwasanaethau bysiau ag amserlen yn ymylol ar y gorau.
- Mae ganddo rôl hefyd mewn ardaloedd metropolitan fel Casnewydd, lle mae'n darparu gwasanaethau bysiau mewn ardaloedd sydd heb wasanaethau ag amserlen yn ogystal â siwrneiau sy'n croesi'r ddinas, lle byddai angen dau wasanaeth arferol fel arfer. Yng Nghasnewydd, mae hefyd yn darparu bysiau gyda'r nos ac ar y Sul.
- Mae proffil teithwyr a'u siwrneiau yn syndod o debyg ar draws y tair ardal o Gymru – felly hefyd eu hagweddau tuag at y cynllun *fflecsi*.
- Siopa, mynychu apwyntiadau (meddygol, cyfweliadau swyddi ac yn y blaen) a theithiau hamdden yw'r rhesymau mwyaf cyffredin. Efallai na fydd yr amseroedd gweithredu presennol mewn ardaloedd heblaw Casnewydd yn cynnwys oriau cymudo arferol neu deithiau i'r ysgol/coleg.
- Er bod y syniad o wasanaeth sy'n integreiddio â gwasanaethau bysiau a threnau rheolaidd presennol yn apelio at rai, mae cryn bryderon am ba mor ddibynadwy yw unrhyw gysylltiadau ac a oes modd ymddiried yn y gwasanaeth i gyflawni yn erbyn yr addewid penodol hwn.
- I lawer, mae defnyddio ap i archebu taith yn apelio ac yn arwydd o wasanaeth arloesol a modern. Mae llawer o'r rhai a oedd yn anghyfforddus wrth ddefnyddio'r dechnoleg i ddechrau, wedi addasu iddi, tra mae'n well gan rai ddefnyddio'r ganolfan alwadau. Mae hyn yn rhan allweddol o'r cynnig ac yn rhoi sicrwydd os bydd pobl yn cael unrhyw drafferth gyda'r system.
- Yn gyffredinol, mae pobl yn hoffi'r cerbydau (gan gynnwys rhai â nam symudedd), ond y gyrwyr yw wyneb y gwasanaeth. Maen nhw'n allweddol i brofiad teithwyr.
- Mae cyflwyno gwasanaeth Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw yn llwyddiannus yn dibynnu ar berthynas waith dda rhwng y partneriaid (gweithredwyr ac awdurdodau lleol). Mae rôl Trafnidiaeth Cymru o ran helpu pobl i ddefnyddio meddalwedd ViaVan a'r swyddfa gefn, wedi bod yn hanfodol wrth sefydlu'r gwasanaeth *fflecsi*.
- Serch hynny, os bydd cynlluniau Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw yn llwyddo i hybu nifer y teithwyr ar ôl y pandemig, efallai bydd y ddadl economaidd yn ffafrio gwasanaethau ag amserlen (yn enwedig os oes llawer o gymudo).
- **Mae'r ymchwil yn dangos rôl werthfawr Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw fel rhan o'r cymysgedd trafnidiaeth cyffredinol.**



Trafnidiaeth Cymru

# Methodoleg

Ariennir yr ymchwil hwn ar y cyd gan Trafnidiaeth Cymru a Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru. Comisiynwyd Define Insight & Strategy i gynnal yr ymchwil.

Oherwydd pandemig Covid, cynhaliwyd y cyfweliadau o bell, drwy gyswllt fideo'n bennaf. Roedd hyn yn golygu bod y cyfwelydd yn gallu dangos deunyddiau ysgogi fel lluniau o wefannau amrywiol. Defnyddiwyd cyfweliadau dros y ffôn gydag ambell berson heb fynediad i'r we.

Rydym yn ddiolchgar am gymorth canolfan alwadau TrC yn ogystal â gweithredwyr ar draws yr ardaloedd wrth helpu i nodi a chael cytundeb teithwyr, sy'n archebu dros y ffôn a thrwy'r ap, i gydweithio yn yr ymchwil.

Cynhaliwyd y cyfweliadau yng Nghasnewydd ym mis Chwefror/Mawrth 2022 pan laciwyd cyfyngiadau Covid yn sylweddol. Cwblhawyd cyfanswm o 84 o gyfweliadau gyda defnyddwyr/darpar ddefnyddwyr (cynhaliwyd 15 o gyfweliadau fel parau/triawd o ffrindiau).

Yn ogystal, cwblhaodd Define ddeuddeg o gyfweliadau trylwyr (trwy gyswllt fideo) gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr yn yr un ardaloedd, yn ogystal â Gwynedd ac Abertawe, er mwyn cael barn rhanddeiliaid a oedd wedi dewis peidio â chymryd rhan yng nghynllun peilot TrC.

Roedd Ffocws ar Drafnidiaeth wedi ystyried Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw o'r blaen yn 2016, wrth gasglu barn defnyddwyr am fysiau cymunedol lle gellir archebu ymlaen llaw a thacsis a rennir mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol Suffolk, Swydd Gaerwrangon a Hampshire[3].

3 Mae'r adroddiad hwnnw ar gael yn: https://www.transportfocus.org.uk/publication/demand-responsive-transport-users-views-pre-booked-community-buses-shared-taxis/.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

**Cysylltwch â Ffocws ar Drafnidiaeth**
Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y gwaith ymchwil hwn at:
David Beer
Uwch Reolwr, Cymru
david.beer@transportfocus.org.uk

www.transportfocus.org.uk
info@transportfocus.org.uk

Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru Cyf.
5ed Llawr, Tŷ Trafalgar
5 Plas Fitzalan
Caerdydd
CF24 0ED

Mae Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru Cyf. yn rhan o'r Grŵp Ffocws ar Drafnidiaeth

Ffocws ar Drafnidiaeth yw enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr

© 2022 Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru
Dylunio: heritamacdonald.com
Llun y clawr blaen: Trafnidiaeth Cymru